

Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyngor Sir Ddinbych

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer y flwyddyn 2014–15

Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014 - 2015

Awdurdod Cyngor Sir Ddinbych
Lleol:

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Sir Ddinbych wrth gyflwyno ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.

1. Crynodeb

- 1.1. Mae Cyngor Sir Ddinbych yn parhau i baratoi ar gyfer rhoi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith. Mae aelodau etholedig wedi'u briffio'n dda ac yn deall goblygiadau'r Ddeddf. Roedd paratoi at hyn yn ystod y flwyddyn yn cynnwys aildrefnu'r strwythur uwch-reoli ac felly creu adran newydd ar gyfer gwasanaethau cefnogi cymunedol, gan ymgorffori gwasanaethau cymdeithasol oedolion a gwasanaethau digartrefedd, a hefyd cynllunio i gyfuno gofal cymdeithasol plant ac addysg i un adran, a fydd yn cael ei rhoi ar waith yn 2015-2016.
- 1.2. Mae diwylliant effeithiol yn parhau i fod yn y cyngor mewn perthynas ag archwilio perfformiad o ran cyflwyno gofal cymdeithasol, gan ddarlunio ymgysylltiad gwleidyddol trwy gyfarfodydd herio gwasanaethau, sy'n cynnwys aelodau etholedig yn ogystal ag arolygiaethau sydd wedi'u gwahodd.
- 1.3. Ym mis Gorffennaf 2014, lansiwyd Un Pwynt Mynediad, sy'n enghraifft dda o gydweithio ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy o gynnydd mewn perthynas â sefydlu prosiectau integredig, yn enwedig lle nad yw ariannu grant ar gael.
- 1.4. Roedd gostyngiad yn y nifer o oedolion hŷn oedd yn derbyn gofal preswyl yn ystod y flwyddyn a chynnydd yn y ddarpariaeth drwy fodolau amgen o gefnogaeth, fel bod pobl yn gallu cadw eu hannibyniaeth. Mae'r patrwm hwn o gyflwyno gofal cymdeithasol yn flaenoriaeth gorfforaethol a ddefnyddir i bwysleisio pwysigrwydd y trydydd sector fel partneriaid cyflwyno.
- 1.5. Er gwaethaf y cynnydd mewn capasiti i gyflwyno gwasanaeth diogelu oedolion agored i niwed, nid yw perfformiad mewn perthynas ag amddiffyn oedolion agored i niwed wedi gwneud cynnydd fel y disgwyl. Rydym yn gweld hyn fel risg barhaus i'r cyngor yn y flwyddyn sydd i ddod.

- 1.6. Parhawyd i atgyfnerthu gwasanaethau'r cyngor i blant a theuluoedd, gan ddangos y cynnydd da a gafwyd drwy ail-lunio rolau staff a darparu ymyriadau cynnar tymor byr a galluogi cefnogaeth i deuluoedd. Mae'r cyngor hefyd wedi rhoi proses ar waith i gael gwybod am brofiadau a safbwyntiau pobl ifanc. Er bod gwelliant sylweddol i'w weld mewn perthynas â chynlluniau addysg personol, mae llawer mwy i'w gyflawni eto mewn perthynas ag anghenion ieched plant mewn lleoliadau gofal.
- 1.7. Mae'r cyngor yn parhau i roi'r cynllun 'Mwy Na Geiriau' ar waith yn rhagweithiol, a gwnaed cynnydd gwyb yn ystod y flwyddyn, a welir drwy arweinyddiaeth strategol, hyrwyddo, mynediad dwyieithog i bobl, a hyfforddiant i'r gweithlu.

2. Yr ymateb i'r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

Gwelliant wedi'i nodi y llynedd	Cynnydd yn 2014-2015
Sefydlu proses ymchwilio i wrando a chael gwybod am brofiadau a chanlyniadau i blant a phobl ifanc	Cynnydd da – Methodoleg gadarn yn cynnwys cymhwyso amrywiaeth eang o declynnau, gan gynnwys cyflwyno'r defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Bydd angen gwerthurso data a chanlyniadau yn ystod 2015-2016.
Gwella ansawdd darpariaeth a chanlyniadau ar gyfer plant mewn gofal	Gwella perfformiad yn araf mewn perthynas â gwiriadau ieched a deintyddol ar gyfer plant mewn gofal, ond mae'n parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru. Cynnydd sylweddol mewn perfformiad yn ymwneud â chynlluniau addysg personol, a chymwysterau addysgol ar gyfer pobl ifanc 16 mlwydd oed. Mae'r ddau bellach yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.
Effaith newidiadau i'r strwythur staffio ar gyfer amddiffyn oedolion agored i niwed er mwyn sicrhau bod y broses ddiogelu yn cael ei gweithredu mewn modd amserol, cyson ac awdurdodol ar draws yr awdurdod	Cynnydd bychan iawn – Mae'r arfer yn bryder o hyd, ac mae angen gwelliant ar frys.
Gwerthuso ansawdd bywyd a chanlyniadau pobl gydag anableddau dysgu	Rhywfaint o gynnydd – Cyflwynwyd swydd i adolygu cefnogaeth a chanlyniadau i bobl mewn gwasanaethau tai a chymorth. Mae grŵp llywio cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn gwerthuso canfyddiadau ar sail y gwersi a ddysgwyd.
Cynyddu'r cyfleoedd i bobl ddefnyddio taliadau uniongyrchol	Gwnaed cynnydd – Mwy o bobl yn eu defnyddio, hyfforddi a datblygu cynllun gweithredu i gynyddu'r defnydd o daliadau uniongyrchol ymhellach.

Cynyddu cyfraddau cefnogaeth i ofalwyr	Rhywfaint o gynnydd – Blaenoriaeth yng nghynllun gwella gwasanaeth Cyngor Sir Ddinbych 2014-2015. Cynnydd bychan yn y perfformiad yn ystod y flwyddyn. Prosesau casglu data newydd i fesur asesu a'r nifer sy'n derbyn.
Mae angen mwy o eglurder o ran cyfeirio a'r math o wasanaethau sydd ar gael i deuluoedd nad ydynt yn cyrraedd y trothwy angenrheidiol i gael mynediad at wasanaethau plant a theuluoedd	Tystiolaeth o gynnydd trwy'r Porth Plant a Theuluoedd; ceir Tîm o Amgylch y Teulu (TAF), a chyfnewid gwybodaeth yn rheolaidd gydag asiantaethau perthnasol.
Gwella pa mor hygyrch yw gwybodaeth a ddarperir gan y cyngor trwy ddefnyddio technoleg symudol, gan gynnwys fersiynau hawdd i'w darllen	Mae cynllun peilot wedi cychwyn o fewn y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol a ddyluniwyd i fireinio arfer mewn perthynas â gwrando ar unigolion a mwyhau canlyniadau personol. Cyflwynwyd a dyluniwyd technoleg symudol a chyfryngau cymdeithasol i wella dulliau gwrando, cael gwybod, ac ymateb i blant.
Capasiti ar gyfer monitro contractau	Gwnaed cynnydd, gyda mwy o gapasiti.

3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

- 3.1. Cyfarfu AGGCC ag uwch-swyddogion y cyngor ddeunaw o weithiau yn ystod y flwyddyn i adolygu a thrafod perfformiad gwasanaethau cymdeithasol, gan gynnwys y meysydd i'w gwella a nodwyd yng ngwerthusiad perfformiad y llynedd. Mynychwyd cyfarfodydd herio gwasanaethau'r cyngor. Bu i'r cyngor ymgysylltu'n gyson ag AGGCC, ac roeddent yn barod i hwyluso mynediad at y wybodaeth y gwnaed cais amdani a galluogi cynnal ymweliadau safle.
- 3.2. Hefyd, cynhaliwyd gwaith maes yn Sir Ddinbych fel rhan o astudiaeth o annibyniaeth pobl hŷn Swyddfa Archwilio Cymru, a oedd yn cynnwys cael barn gan y trydydd sector. Bu i ni gyfarfod â hwb comisiynu Gogledd Cymru i archwilio gwasanaethau comisiynu ar gyfer pobl ag anghenion cymhleth. Cynhaliwyd ymweliadau ar y cyd i wasanaethau plant ac oedolion, gan siarad â phobl oedd yn defnyddio gwasanaethau, eu perthnasau, a staff. Hefyd, cynhaliodd AGGCC fforwm darparwyr rhanbarthol ar gyfer gwasanaethau i oedolion ieuengach, a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr o wasanaethau yn y sir. Yn ystod y flwyddyn, cyhoeddwyd ein harolygiad o wasanaethau maethu mewnol Sir Ddinbych. Mae manylion am y rhain wedi'u cynnwys mewn adroddiadau a gyhoeddwyd, ac sydd ar gael ar wefan AGGCC.

4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

- 4.1. Nodwyd nifer o feysydd penodol i'w gwella yng nghorff yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor o ran y rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn y flwyddyn sydd i ddod. Bydd meysydd penodol i'w dilyn yn cynnwys perfformiad y cyngor mewn perthynas â:
- Monitro a gwerthuso'r effaith bosibl ar blant ac oedolion o ganlyniad i newidiadau'r cyngor i'r strwythur uwch-reoli ar gyfer cyflwyno gofal cymdeithasol
 - Gwella amserlenni ac ymgysylltiad amddiffyn oedolion agored i niwed a chynnal adolygiad o lefelau trothwy
 - Monitro'n agos ansawdd yr holl ddarparwyr gofal cartref – bydd angen casglu profiadau a safbwyntiau'r rheiny sy'n derbyn gwasanaethau gofal cartref yn y broses hon
 - Gweithio mewn partneriaeth integredig gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref
- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu
- Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal i blant sy'n derbyn gofal

6. I ba raddau mae'r profiadau a'r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?

Oedolion

Trosolwg

- 6.1. Syrthiodd y nifer o leoedd preswyl (499) ar gyfer oedolion hŷn a gefnogir gan y cyngor yn 2014-2015 o'r flwyddyn flaenorol, ac maen nhw wedi cynyddu 15% dros y tair blynedd ddiwethaf. Ehangodd tai gofal

ychwanegol o un i dri chynllun, ac roedd cynnydd yn y nifer oedd yn defnyddio teleofal a thechnolegau cynorthwyol o 76 (5%), er i'r astudiaeth o annibyniaeth pobl hŷn a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn ganfod fod angen mwy o ddefnydd o dechnolegau newydd.

- 6.2. Mae gostyngiad wedi bod yn y nifer o offer a ddarperir gan y storfeydd offer ar y cyd rhwng gwasanaethau cymdeithasol a'rbwrdd iechyd i bobl hŷn. Cred y cyngor fod hyn oherwydd bod yr Un Pwynt Mynediad newydd yn cyfeirio pobl at y trydydd sector, er nad oes tystiolaeth eto i gefnogi'r rhesymeg hwn.
- 6.3. Mae adroddiad y cyfarwyddwr ar gyfer 2014-2015 yn cydnabod na lwyddodd y cyngor i wneud gwaith monitro ffurfiol o ansawdd nifer o asiantaethau gofal cartref yn ystod y flwyddyn drwy ymweld â phob darparwr. Felly bydd yn rhaid monitro'r holl ddarparwyr yn effeithiol yn ystod 2015-2016. Yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu gyda AGGCC, dywedodd y cyngor fod 70% o'r holl alwadau 15 munud i bobl yn eu cartrefi eu hunain yn 'alwadau gwirio'. Dylai gwaith monitro ansawdd gynnwys cyfweiliadau, yn ogystal â'r dulliau a ddefnyddir eisoes, er mwyn cynyddu'r cyfleoedd i wrando ar safbwyntiau pobl sydd yn derbyn pob math o wasanaethau gofal cartref, a'u gwerthuso. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu'n rhoi sylw i'w hanghenion ac yn llywio gwaith comisiynu gan y cyngor yn y dyfodol.
- 6.4. Mae dros 95% o ddarpariaeth breswyl i oedolion ieuengach ac oedolion hŷn gydag anghenion cymhleth yn Sir Ddinbych yn cael ei darparu gan y sector annibynnol, ond eto mae'n syndod nodi bod adroddiad y cyfarwyddwr yn dweud mai dim ond 27 o'r gwasanaethau a gafodd eu hymweld gan swyddogion monitro contractau. Fodd bynnag, yn aml roedd yr ymweliadau hyn mewn ymateb i bryderon ac yn cael eu cynnal ar achlysuron mewn cydweithrediad ag arolygwyr o AGGCC a rheoleiddwyr eraill. Mae swyddogion adolygu'r cyngor hefyd yn rhannu gwybodaeth gyda'r tîm monitro contractau yn dilyn adolygu cynlluniau gofal pobl. Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd bod lefel dda o rannu gwybodaeth rhwng swyddogion monitro contractau ac AGGCC, gan alluogi defnyddio dull rhagweithiol yn gynnwys i wasanaethau lle'r oedd pryderon wedi codi.
- 6.5. Gan adlewyrchu ei agenda gorfforaethol, mae'r cyngor yn galluogi pobl gydag anableddau dysgu ac anghenion iechyd meddwl i fod mor annibynnol â phosibl. Roedd cynnydd o 38% yn y nifer o bobl oedd yn defnyddio taliadau uniongyrchol o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae cynllun gweithredu, gan gynnwys hyfforddiant pellach i staff, yn gobeithio denu mwy o bobl i ddefnyddio hyn yn y dyfodol. Cyflwynwyd swyddi gwaith cymdeithasol penodol yn ystod y flwyddyn i adolygu

canlyniadau ar gyfer pobl mewn gwasanaethau tai a gefnogir, ac mae grŵp llywio cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion yn gwerthuso'r canfyddiadau ar sail y gwersi a ddysgwyd, sy'n llywio'r broses o gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol.

- 6.6. Mae perfformiad yn parhau i achosi pryder mewn perthynas â diogelu oedolion agored i niwed drwy'r broses amddiffyn oedolion agored i niwed. Ceisiodd y cyngor gryfhau capasiti ar ddechrau'r flwyddyn drwy ehangu rôl y Prif Reolwr Dynodedig. Hefyd, sefydlwyd cefnogaeth weinyddol ddynodedig tuag at ddiwedd y flwyddyn, darparwyd hyfforddiant i staff, a chynhaliwyd cyfarfodydd misol i adolygu cynnydd ac i rannu arfer. Er gwaethaf y datblygiadau hyn, erbyn diwedd 2014-2015 nodwyd yr un pryderon â nodwyd yn adroddiad gwerthuso perfformiad y llynedd, gan gynnwys amseroldeb a diffyg cysondeb yn y broses ddiogelu. Rydym wedi arsylwi nad oedd asiantaethau perthnasol bob amser yn cael eu cynnwys yn y trafodaethau cynnar, ac roedd thema ailadroddus bod diffyg hyder yn y Prif Reolwr Dynodedig, gan awgrymu bod angen cefnogaeth a hyfforddiant pellach. Hefyd, mae angen eglurder o ran trothwy'r cyngor ar gyfer derbyn a gwrthod cyfeiriadau amddiffyn oedolion agored i niwed. Mae'r cyngor wedi cyfleu eifod yn bwriadu rhoi prosesau casglu data a gwerthuso newydd ar waith yn ymwneud â phob cam o'r broses amddiffyn oedolion agored i niwed, a byddwn yn dilyn y rhain yn y flwyddyn sydd i ddod.
- 6.7. Mae'r cyngor yn cydnabod ei bod yn bosibl bod cyfeiriadau gan yr Un Pwynt Mynediad i'r tîm amddiffyn oedolion agored i niwed wedi dioddef oedi oherwydd eu bod yn ceisio cyngor anffurfiol gan y tîm hwn. Mae'r cyngor yn ceisio rhoi sylw i hyn drwy sicrhau bod gan bersonél yr Un Pwynt Mynediad y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud cyfeiriadau amserol i'r tîm amddiffyn oedolion agored i niwed.
- 6.8. I'r gwrthwyneb, cyflwynodd y cyngor ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, gydag wyth aelod o staff oedd wedi'u hyfforddi a chydlynnydd yn dechrau yn ei swydd yn ystod y flwyddyn. Yn ystod 2014-2015, roedd cynnydd sylweddol iawn yn y nifer o geisiadau o dan y trefniadau hyn a dderbyniwyd gan y cyngor, gyda 221 o geisiadau wedi'u gwneud, 46 asesiad wedi'u cyflawni, a 43 awdurdodiad wedi'u gwneud (o'i gymharu â 12 cais a phump awdurdodiad yn unig yn ystod y flwyddyn flaenorol). Hefyd, defnyddiodd y cyngor eu hymchwil i leoliadau yn y gymuned a chanfod bod o leiaf 50 o bobl eraill yn debygol o fod yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid gan ddefnyddio'r prawf budd pennaf diwygiedig.
- 6.9. Cynyddodd y nifer o oedolion gydag anghenion cymhleth oedd angen adolygiadau o'u cynlluniau gofal o 102 yn ystod y flwyddyn o'i gymharu â 2013-2014, er i gyfanswm y nifer o adolygiadau a gynhaliwyd ostwng

o wyth o'r flwyddyn flaenorol. Er bod perfformiad y cyngor o ran cynnal adolygiadau cynlluniau gofal ar amser yn parhau i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru ar 88%, mae'r gostyngiad bychan hwn mewn perfformiad yn ystod 2014-2015 yn golygu y bydd angen monitro perfformiad yn agos iawn gan y cyngor yn 2015-2016.

- 6.10. Gwnaed cynnydd mewn perthynas â chefnogaeth ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu, gan gynnwys cyflwyno swyddi newydd a mwy o bobl yn defnyddio taliadau uniongyrchol. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad yw proffil pobl gydag anghenion iechyd meddwl mor uchel ar hyn o bryd, ac mae angen eglurder yn ymwneud â chanfod, asesu a chomisiynu'r gwasanaethau.
- 6.11. Mewn blynyddoedd diweddar, mae nifer gynyddol o bobl gydag anableddau dysgu ac anghenion cymhleth yn aml o du allan i'r sir a hyd yn oed y tu allan i Gymru wedi cael eu gosod gyda darparwyr annibynnol yn Sir Ddinbych. Mae dros 95% o'r ddarpariaeth gyfan yn Sir Ddinbych ar gyfer oedolion hŷn ac oedolion ieuengach gydag anghenion cymhleth yn cael ei darparu gan y sector annibynnol. Mae'n debygol bod nifer arwyddocaol o bobl yn y gwasanaethau hyn nad ydynt yn hysbys i'r cyngor ond a fydd o bosibl, ar ryw bwynt, angen mynediad at wasanaethau iechyd cynradd a gwasanaethau gofal cymdeithasol, yn ogystal â gwarchodaeth y prosesau diogelu y mae'r cyngor yn eu gweithredu. Felly, bydd yn bwysig i'r cyngor (a'i bartneriaid) asesu a rhagweld angen ac adnoddau yn y dyfodol yn hyn o beth, ond hefyd i ystyried effaith bosibl camu i lawr o gefnogaeth ddwys ac i leoliadau yn y gymuned o fewn y sir.

Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol (Cymru)

Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar

- 6.12. Mae'r cyngor yn darparu cyfarwyddyd ac arweinyddiaeth gref sy'n cynyddu'r ystod o wasanaethau ataliol a gwasanaethau ymyrraeth gynnar sydd ar gael i bobl hŷn, ac mae Cynllun Lles Sir Ddinbych yn dangos cyfeiriad strategol y cyngor wrth geisio galluogi pobl i ddod yn wydn ac annibynnol. Yn ystod y flwyddyn, gallai datblygiad y cyngor o'r model 'SID' (Cefnogi Annibyniaeth yn Sir Ddinbych) yn y pen draw ddod yn dempled i'r mathau o gefnogaeth integredig y gall yr holl ddinasyddion, ifanc a hŷn, ei ddisgwyl ar adegau amrywiol yn ystod eu bywydau.
- 6.13. Darparwyd gwasanaeth ailalluogi i 346 o bobl, ac nid oedd 60% o'r rheiny angen cefnogaeth bellach. Cynrychiolodd hyn leihad o'r blynyddoedd blaenorol (376 o bobl a 77%), er i hwn fod yn faes o

flaenoriaeth i'w ddatblygu i fodloni angen cynyddol Sir Ddinbych ar gyfer gwasanaethau ailalluogi.

- 6.14. Sefydlwyd prosiect 'Fy Mywyd Fy Ffordd' gan swyddog strategaeth pobl hŷn yn dilyn ymchwil i fodolau oedd yn cael eu defnyddio gan gynghorau eraill. Yn ystod y flwyddyn, arweiniodd hyn at gyflwyno grwpiau cyfeirio, gan gynnwys pobl hŷn, ac adnoddau lleol i bobl gael cyngor a gwybodaeth ac i gadw gwydnwch ac annibyniaeth.
- 6.15. Dechreuodd y cyngor hefyd ar brosiect a'i fwriad i asesu ac ymyrryd yn yr unigedd mae pobl hyn yn ei brofi. Hefyd, cynlluniwyd gyda chymunedau lleol i ddatblygu rhaglen cyfnewid addysg a rhaglen 'heneiddio'n dda yn Sir Ddinbych' yn 2015-2016 (fel rhan o'r fenter heneiddio'n dda yng Nghymru).
- 6.16. Yn ystod y flwyddyn, cymerodd y cyngor ran mewn cynllun peilot cenedlaethol i ddatblygu hybiau cymunedol i alluogi mynediad hawdd at gyngor a gwybodaeth ar gyfer y boblogaeth leol. Cychwynnodd yr hwb cymunedol cyntaf, oedd yn cynnal 'trafodaethau wedi'u harwain gan y gymuned', yng Nghorwen. Fe'i cyflwynwyd gan ymarferwyr amlasiantaethol, ac mae'n ymddangos bod gan y gwasanaeth estyn allan symudol arloesol hwn botensial da i bobl leol gael cyngor a gwybodaeth, ac os oedd angen, i wasanaethau ddod yn ymwybodol o'u hanghenion, ac i gefnogaeth gael ei darparu. Mae hefyd yn ymddangos bod y cam cynnar hwn o'r datblygiad yn cynnig cyfle sylweddol i'r cyngor roi prosesau monitro a gwerthuso effeithiol ar waith i ddangos effeithiolrwydd neu ddiffyg effeithiolrwydd y model hwn.
- 6.17. Nodwyd gofalmwr oedolion yn flaenoriaeth yng nghynllun gwella gwasanaeth y cyngor 2014-2015. Gwnaed cynnydd o ran ei bartneriaethau gyda'r trydydd sector ac ymgysylltu â gwasanaethau hamdden, colegau, a llyfrgelloedd i godi ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, mae cywirdeb cofnodi wedi bod yn broblem, ac mae prosesau wedi cael eu rhoi ar waith i fonitro a chofnodi'r nifer sy'n defnyddio asesiadau ar gyfer gofalmwr. Gwelwyd gwelliant mewn perfformiad gyda 93.7% o ofalmwr yn cael cynnig asesiad (89.4% yn 2013-2014) a 96.7% o ofalmwr yn derbyn gwasanaeth (95.5% yn 2013-2014).

Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn gydag anghenion cymhleth

- 6.18. Lanswyd yr Un Pwynt Mynediad ym mis Gorffennaf 2014, ac roedd ei gyflwyno'n arddangos model effeithiol o weithio integredig mewn partneriaeth rhwng iechyd a gofal cymdeithasol, gan ddarparu asesiadau a chefnogaeth i bobl oedd mewn risg o iechyd yn dirywio.

Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd gan y gwasanaeth staff llawn, gan gynnwys staff o'r trydydd sector ac yn cynnwys ymateb dwyieithog.

- 6.19. Roedd rhyddhau o'r ysbyty yn fuan ac ar benwythnosau yn elw yn ystod chwarter olaf 2014-2015 o gyflwyno rôl ymarferwyr iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd, gan gefnogi 23 o bobl.
- 6.20. Ni wnaed cynnydd mewn perthynas â sefydlu prosiectau integredig lle nad oedd ariannu grant ar gael. Felly, bydd angen sefydlu cynllunio a chyfluoedd sydd yn arwain at integreiddiad iechyd a gofal cymdeithasol mwy yn y flwyddyn sydd i ddod.

Meysydd lle mae cynnydd

- Strategaethau i ganiatáu pobl hŷn gadw eu hannibyniaeth trwy gyflwyno ffynonellau gwybodaeth ac asesu lleol
- Y nifer o ofalwyr sy'n cael asesiadau a gwasanaethau
- Cyflwyno awdurdodiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid

Meysydd i'w gwella

- Diogelu oedolion
- Monitro ansawdd holl ddarparwyr gofal cartref, gan gynnwys cael gwybod am brofiadau a safbwyntiau'r rheiny sy'n derbyn gwasanaethau gofal cartref fel sail i gynllunio gwasanaethau a chomisiynu
- Asesu a rhagweld dibyniaeth bosibl ar adnoddau'r awdurdod lleol i bobl gydag anableddau dysgu, anghenion iechyd meddwl, ac anghenion cymhleth nad ydynt yn hysbys ar hyn o bryd i'r cyngor ac sy'n byw mewn darpariaeth gofal yn y sector annibynnol yn Sir Ddinbych; ystyried effaith posibl unrhyw gamu i lawr o gefnogaeth ddwys i leoliadau yn y gymuned
- Eglurder yn ymwneud â dull y cyngor o ganfod, asesu a chefnogi pobl ag anghenion iechyd meddwl

Plant a phobl ifanc

Trosolwg

- 6.21. Derbyniodd y gwasanaethau plant a theuluoedd nifer sylweddol llai o 13% (103) o gyfeiriadau o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y ganran o

gyfeiriadau yn ystod y flwyddyn y gwnaed penderfyniad arnynt o fewn 24 awr oedd 100%, gyda mwy o ffocws gan y cyngor ar gyfeirio ac asesu priodol ar y pwynt cyntaf o gysylltu. Syrthiodd ail-atgyfeiriadau hefyd, o 32 i 101. Mae'r cyngor yn dweud bod y gostyngiad mewn cysylltiadau ac ail-atgyfeirio o ganlyniad i ddull mwy rhagweithiol i ymatebion ataliol ac ymyrraeth gynnar, gweithio gyda theuluoedd trwy eiDîm o Amgylch y Teulu (TAF) a rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf, a chyfarfod dwywaith yr wythnos gydag asiantaethau perthnasol eraill i gyfnewid gwybodaeth, sydd yn atal yr angen am wasanaethau ffurfiol. Dylai'r cyngor geisio olrhain a monitro canlyniadau i blant a theuluoedd sydd wedi'u cyfeirio ymlaen at wasanaethau eraill.

- 6.22. Yn ystod y flwyddyn, cyrhaeddwyd lefelau staffio llawn o ran diogelu ac adolygu, a bu i'r perfformiad wella gyda 100% o gynadleddau amddiffyn plant cychwynnol a 93% o gyfarfodydd grwpiau craidd cychwynnol gael eu cynnal o fewn yr amserlenni. Rhoddwyd 78 o blant ar y gofrestr amddiffynplant, sydd yn cynrychioli gostyngiad o 8.2% ers y flwyddyn flaenorol. Mae'r cyngor wedi cyflwyno methodoleg 'Arwyddion Diogelwch' ar gyfer cynadleddau amddiffyn plant, sydd â'r potensial i alluogi teuluoedd i ganfod risgiau yn ogystal â galluogi plant a phobl ifanc i gyfrannu at y broses rheoli risg. Mae mwy o godi ymwybyddiaeth o ddiogelu wedi bod ymysg staff ar draws y cyngor, gyda rhaglen hyfforddi diogelu gorfforaethol wedi'i chyflwyno i 107 aelod o staff. Roedd cyfarfodydd herio gwasanaethau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys archwilio ar ddiogelu a gwersi a ddysgwyd o Rotherham. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y bwrdd diogelu plant adolygiad amddiffynplant i archwilio gwersi a ddysgwyd yn dilyn marwolaeth plentyn.
- 6.23. Mae'r cyngor hefyd yn ceisio gweddnewid gwasanaethau i blant ag anabledd drwy gynyddu'r mynediad at wasanaethau cyffredinol. Er y gwelwyd cynnydd calonogol yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â chanlyniadau addysg, syrthiodd amseroldeb adolygiadau ar gyfer plant ag anableddau'n sylweddol yng nghanol y flwyddyn. Roedd hyn oherwydd anawsterau recriwtio staff, er i'r cyngor ddweud wrthym fod ganddynt staff llawn yma erbyn diwedd y flwyddyn. Nid yw'n glir eto p'un ai a fydd y strwythur staffio newydd yn ystyried anghenion plant ag anableddau ac ymateb iddynt, ac felly mae angen eglurder o ran strwythur a phrotocolau.
- 6.24. Cafodd darpariaeth egwyl fer i blant ag anableddau ei lleihau, a 2014-2015 oedd y flwyddyn olaf nad oedd yn rhaid i rieni gyfrannu'n ariannol at ofal seibiant. O 2015-2016, gofynnir i rieni nad yw'n dymuno cael profion modd gyfrannu £25 yr wythnos (h.y. £1,300 y flwyddyn) at y ddarpariaeth o ofal seibiant ar gyfer eu plentyn. Mae risg y bydd

teuluoedd yn dewis tynnu'n ôl oherwydd rhesymau ariannol, a bydd angen i'r cyngor fonitro amgylchiadau o'r fath yn agos.

- 6.25. Mae'r cyfarwyddwr wedi cyflwyno dull mwy trylwyr o werthuso, gyda phroses ymchwil gadarn bellach ar waith sy'n cynnwys cymhwyso amrywiaeth eang o declynnau, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a datblygu partneriaeth. Bydd hyn yn gwella cywirdeb casglu data mewn perthynas â gwrando ar a chasglu gwybodaeth am brofiad plant a phobl ifanc. Mae angen i'r cyngor fonitro'n agos y dystiolaeth yn ymwneud â chanlyniadau plant a theuluoedd nad ydynt yn cyrraedd y trothwy am wasanaethau ffurfiol.

Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol

Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar


- 6.26. Mae gwasanaethau ymyrraeth gynnar ddwys plant a theuluoedd mewn cyfnod o drawsffurfio yn bennaf oherwydd cyfuniad strategol gwasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau addysg. Gwelwyd effaith gychwynnol yn rhesymoliad swyddi staff, gyda chanlyniad tebyg o gael gwasanaeth ymyrraeth gynnar wedi'i integreiddio. Mae'r bwrdd rhanbarthol ar gyfer cymorth integredig i deuluoedd yn rhoi ffocws ar y teuluoedd hyn gyda phlant gyda lefel uchel o anghenion cefnogaeth.
- 6.27. Bu i Dîm Cefnogi Teuluoedd y cyngor gyflwyno gwasanaeth saith diwrnod yr wythnos, yn ystod oriau effro, yn cynnig cefnogaeth tymor byr, ymyrraeth gynnar, a chefnogaeth i deuluoedd.
- 6.28. Mae cefnogaeth staff ar gyfer plant agored i niwed a theuluoedd wedi cael ei ail-ffocysu, gan awgrymu bod y cyngor yn symud tuag at ddod yn sefydliad dysgu. Er enghraifft, cyflwynwyd rôl allweddol yr 'arweinydd ymarfer', sydd yn gyfrifol am faich achosion o tua 60-70 ac yn darparu cefnogaeth mentora barhaus i aelodau llai profiadol o'r tîm staff. Gostyngodd lefelau salwch staff yn y gwasanaethau plant yn ystod y flwyddyn, ac roedd llawer o swyddi staff yn wag yn bennaf oherwydd ymddeoliad staff.
- 6.29. Dim ond 10% o'r holl blant a aseswyd sy'n bodloni'r trothwy i gael mynediad at gefnogaeth uniongyrchol gan y gwasanaethau plant, gyda ffynonellau eraill o gefnogaeth yn cael eu darparu trwy raglen Teuluoedd yn Gyntaf a'r Tîm o Amgylch y Teulu. Felly, mae angen systemau cefnogi effeithiol sy'n galluogi i blant agored i niwed a theuluoedd gael mynediad at asianataethau mewnol ac allanol fel Gwasanaethau Gwybodaeth i Deuluoedd a grwpiau gwirfoddol. Nodwyd bod y porth cefnogi plant a theuluoedd yn parhau i ddatblygu, a gyda chyflwyniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)

2014 y flwyddyn nesaf, dyma fydd adnodd gwybodaeth, cyngor a chymorth y cyngor. Felly bydd angen ystyriaeth ofalus gan y cyngor i fonitro'n agos mynediad a chanlyniadau plant a theuluoedd nad ydynt yn derbyn ffurfiau mwy dwys o gefnogaeth.

- 6.30. I ehangu mynediad at wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau a'u teuluoedd, cyhoeddodd y cyngor becyn cynhwysiant anabledd i dros 50 o ddarparwyr, cynnal cyfleoedd hyfforddiant i ddatblygu chwarae cynhwysol, a darparu mynediad at amrywiaeth o weithgareddau hamdden yn ystod cyfnodau gwyliau ysgol. Mae hefyd wedi cael gwared ar 'asesu anghenion', a oedd yn cael ei ystyried fel rhwystr i dderbyn gwasanaeth ac wedi'i amnewid â phrawf 'gallu a gallu'n unig'.
- 6.31. Newidiodd dull Sir Dinbych yn sylweddol o ran gwaith prosiect gyda gofalcwyr ifanc yn ystod y flwyddyn. Mae'r gwasanaeth Gofalcwyr Ifanc wedi'i gomisiynu drwy is-gontract rhanbarthol ar gyfer atgyfeiriadau newydd ac ar gyfer gofalcwyr ifanc a oedd yn derbyn gwasanaeth yn flaenorol. Bydd angen monitro a gwerthuso perfformiad gyda'r darparwr newydd hwn, a bydd AGGCC yn dilyn y cynnydd gyda'r cyngor yn ystod y flwyddyn.

Plant sy'n derbyn gofal

- 6.32. Er bod perfformiad mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal yn gymysg, mae'n arddangos llwybr o welliant, gydag arwyddion o gynnydd tuag at ddiwedd y flwyddyn, a chymau gweithredu a gymerwyd i wrando ar leisiau a phrofiadau plant.
- 6.33. Roedd gostyngiad yn y nifer o blant sy'n derbyn gofal o'r flwyddyn flaenorol (175 i 161), sy'n gyfartal i 8.3 fesul 1,000 o'r boblogaeth. Mae Sir Ddinbych yn parhau i fod a'r nifer fwyaf o blant sy'n derbyn gofal o ychydig yn rhanbarth gogledd Cymru.



**Nifer o blant sy'n derbyngofal ar
31 Mawrth**

	2009	2010	2011	2012	2013	2014	2015
Sir Ddinbych	145	172	188	178	168	175	161

- 6.34. Nododd ein harolygiad o wasanaeth maethu Sir Dinbych yn 2014-2015 fod 60 o ofalwyr maeth wedi'u cymeradwyo gyda'r capasiti i ddarparu 137 o leoliadau maeth. Mae 25% o ofal maeth yn Sir Ddinbych yn cael ei ddarparu gan aelod o'r teulu, ac yn gyffredinol mae grŵp sefydlog o ofalwyr maeth yn y sir, a gwelsom fod ysbryd ymysg gofalwyr maeth yn dda. Mae'r cyngor hefyd yn gweithio gyda chynghorau eraill yng ngogledd Cymru i sefydlu dull rhanbarthol o recriwtio gofalwyr maeth.
- 6.35. Mae'r cyngor wedi rhoi dulliau ar waith sydd wedi'u dylunio i wella perfformiad gwael yn y dyfodol mewn perthynas â chynlluniau iechyd, deintyddol ac addysg bersonol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Tuag at ddiwedd y flwyddyn, gwelwyd ychydig o effaith, gyda chynnydd mewn gwiriadau iechyd a deintyddol, ond mae'r ddau faes yn parhau i fod yn llai na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mewn perthynas â gwiriadau iechyd, mae cynnydd wedi bod o 38.4% i 73.5%; a bu i wiriadau deintyddol wella mymryn ers y flwyddyn flaenorol i 59.8%.
- 6.36. Bu i'r cyngor wella ei berfformiad yn sylweddol a sicrhau bod gan yr holl blant sy'n derbyn gofal gynlluniau addysg personol ar waith, ac mae hyn yn llawer uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru ar 100%.
- 6.37. Cynyddodd y nifer o blant oedd yn profi newid ysgol unwaith neu fwy yn ystod y flwyddyn yn sylweddol. Fodd bynnag, eglurodd y cyngor fod 18 o'r 22 plentyn dan sylw wedi symud am resymau cadarnhaol fel dychwelyd i gartref y teulu.

- 6.38. Roedd naid fawr yn y sgôr pwyntiau ar gyfer cymwysterau allanol a gyflawnwyd gan y garfan fechan (pedwar) o bobl ifanc 16 mlwydd oed sy'n derbyn gofal, gyda 438.50 o bwyntiau, sy'n adlewyrchu cynnydd o 168% o'r flwyddyn flaenorol. Dyma'r uchaf yng ngogledd Cymru, ac mae'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru.
- 6.39. Trwy gynnwys y tîm 14+ a'r fforwm rhianta corfforaethol, mae ymgysylltu cadarnhaol ac, yn wir, rywfaint o lwyddiant o'r ystod o wasanaethau cyngor wrth ddarparu opsiynau i'w bobl ifanc sy'n derbyn gofal, gan gynnwys cyfleoedd cyflogaeth a phrentisiaeth. Fodd bynnag, nid yw adroddiad y cyfarwyddwr yn nodi perfformiad mewn perthynas ag effeithiolrwydd y cyngor i baratoi a chefnogi pobl ifanc i sicrhau opsiynau byw parhaol unwaith maen nhw wedi gadael gofal.

Meysydd lle mae cynnydd

- Cyflwynwyd cefnogaeth ymyrraeth gynnar ddwys saith diwrnod yr wythnos i deuluoedd yn ystod y cyfnod o angen mwyaf
- Cyflwyno diwylliant dysgu trwy osod staff allweddol gyda phrofiad a gwybodaeth sylweddol yn strategol i fentora staff llai profiadol
- Cynnydd da mewn cymwysterau yn y cynlluniau addysg personol
- Cynnydd da mewn perthynas â phobl ifanc 16 mlwydd oed

Meysydd i'w gwella

- Amseroldeb adolygiadau i blant ag anableddau
- Monitro'n agos a gwerthuso effaith newidiadau a gyflwynwyd mewn perthynas â mynediad at ofal seibiant i blant ag anableddau
- Gwiriadau iechyd a deintyddol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
- Blaengynllunio a chanlyniadau ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal

7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth

- 7.1. Mae'r cyngor yn darparu arweinyddiaeth gref mewn perthynas â hyrwyddo annibyniaeth. Mae cyfarfodydd herio gwasanaethau a threfniadau llywodraethu corfforaethol a gynhaliwyd drwy gydol y

flwyddyn yn adlewyrchu diwylliant yn y cyngor o archwilio perfformiad yn effeithiol yngngwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion.

- 7.2. Mae'r cyngor wedi gwneud newidiadau strwythurol mawr i reoli gofal cymdeithasol i oedolion ac yn cynllunio ar gyfer trawsffurfio rheolaeth gwasanaethau plant. Bydd y ddau'n cynorthwyo paratodau ar gyfer cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn 2016.
- 7.3. Roedd mater a nodwyd yn adroddiad perfformiad y llynedd yn ymwneud â'r angen am raglenni ataliol i arddangos effeithiolrwydd, er mwyn dod yn gynaliadwy yn erbyn cefnlen o doriadau refeniw ledled y cyngor o £3.5m yn 2014-2015. Cyflawnwyd hyn yn bennaf drwy ailstrwythuro, colli staff trwy ymddeoliad, a pheidio â defnyddio cyllideb a roddwyd i un ochr ar gyfer lleoliadau cost uchel yn ystod y flwyddyn. Daeth gwir berfformiad ariannol yr adran gwasanaethau cymdeithasol o fewn y gyllideb yn 2014-2015.
- 7.4. O reoli'r toriadau i'r gyllideb a newid ei ddull i ofal cymdeithasol rheng flaen, mae'r cyngor wedi dewis lleihau'r nifer o weithwyr cymdeithasol cymwys sy'n cael eu cyflogi yn y gwasanaethau oedolion, ac mae ymarferwyr gofal cymdeithasol wedi dod yn eu lle. O'i gymharu â 2013-2014, roedd lleihad yn ystod y flwyddyn o weithwyr cymdeithasol o 19% (naw swydd) wedi'i gydbwyso drwy gyflwyno swyddi ymarferwyr gofal cymdeithasol 24.8 cyfwerth ag amser llawn (gan gynnwys chwe swyddog adolygu). Mae darlun gwahanol yngngwasanaethau gofal cymdeithasol i blant, gyda chynnydd yn nifer ygweithwyr cymdeithasol ers y flwyddyn flaenorol o 21.47% (saith swydd). Er mwyn asesu'r effaith mae'r newidiadau hyn yn ei gael ar bobl sy'n derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion, bydd angen i'r cyngor fabwysiadu dull mwy trylwyr o sicrhau ansawdd.
- 7.5. Yn 2014-2015 hefyd, cychwynnodd y cyngor raglen ymgynghori fanwl ar ddyfodol eidri chartref preswyl eu hunan i bobl hŷn, sydd ar hyn o bryd yn darparu llety i 50 o bobl ac yn cyflogi 100 o staff. Roedd y broses hon ar y gweill ar ddiwedd y flwyddyn.
- 7.6. Daeth gwasanaethau oedolion yn rhan o'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol newydd, a cheisiodd y gwasanaethau oedolion fireinio ei ddull o gomisiynu yn ystod y flwyddyn. Mae ffocws y ddarpariaeth gofal cartref wedi symud tuag at ddull yn seiliedig ar ganlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaeth, er bod gwaith i werthuso ansawdd yr holl ddarparwyr a chanlyniadau ar gyfer gwasanaethau eto i'w gynnal. Mae'r cynllun peilot sydd yn cael ei redeg gan y cyngor i ddefnyddio'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol yn anelu i osod y person yng nghanol arfer gwaith cymdeithasol yn ogystal â'r broses gomisiynu, gan

arwain at hunan-gyfeiriad gwell at gefnogaeth. Felly, bydd hyn yn gofyn am ddull mwy craff ac unigryw o gomisiynu, a bydd angen mwy o eglurder ar ddull y cyngor o gomisiynu. Yn ychwanegol, dangoswyd pwysigrwydd elusennau a grwpiau cymunedol i ddarparu cefnogaeth lefel isel ond hanfodol yn y gymuned ar lefel leol, er enghraifft yn yr astudiaeth o annibyniaeth pobl hŷn. Bydd strategaeth gydlynol ar gyfer comisiynu'r grwpiau hyn felly'n, caniatáu i'r cyngor gynllunio eigefnogaeth i'r grwpiau hyn, gan ddarparu cydnabyddiaeth a sicrwydd, a byddai'n gweddu'n dda fel rhan o strategaeth y cyngor i alluogi pobl i gadw eu hannibyniaeth mor hir â phosibl.

- 7.7. Cafodd holl staff rheng flaen y gwasanaethau cymdeithasol hyfforddiant yn ystod y flwyddyn i gefnogi rhoi proses gwyno statudol newydd ar waith, a chynhyrchodd y cyngor adroddiad blynyddol ar gyfer 2014-2015. Am yr ail flwyddyn yn olynol, disgynnodd y nifer o gwynion a dderbyniwyd (118 yn 2013-2014 i 76 yn 2014-2015), gan gynrychioli cwmp o 36%. Arhosodd y nifer o gwynion sy'n cael eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol ar yr un lefel â'r flwyddyn flaenorol, ac roedd gostyngiad yn y nifer o gwynion a gafodd eu trin o fewn y raddfa amser (97% yn 2013-2014 i 93% yn 2014-2015). Dylid gwerthuso effaith y broses gwyno newydd a gwneud gwaith i ganfod ac ymateb i faterion a thueddiadau sy'n codi. Mae'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn derbyn gwybodaeth am weithgaredd cwyno a dderbyniwyd yn fisol, gydag archwilio manylach yn cael ei gynnal yn chwarterol.
- 7.8. Fel y nodwyd yn barod, arweiniodd cydweithio da gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr at gyflwyno'r Un Pwynt Mynediad yn effeithiol. Yn ogystal â'r Un Pwynt Mynediad, enghraifft arall o bartneriaeth gynnar gyda'r bwrdd iechyd oedd cyflwyno'r tîm integredig cymorth ideuluoedd amlddisgyblaethol. Fodd bynnag, bydd angen arweinyddiaeth strategol gan y cyngor a'r bwrdd iechyd os am ddatblygu darpariaeth integredig ymhellach. Felly, dylai'r ffaith bod cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol wedi'i wneud yn aelod cyswllt o fwrdd y bwrdd iechyd fod o fantais i gynllunio strategol a gwneud penderfyniadau iechyd a gofal cymdeithasol yn y flwyddyn sydd i ddod.
- 7.9. Mae'r cyngor yn parhau i geisio adeiladu partneriaethau effeithiol gyda chynghorau a chyrff eraill. Bu i uwch-swyddogion o gynghorau Sir Ddinbych a Chonwy gyfarfod trwy gydol y flwyddyn i geisio canfod cyfleoedd i weithio ar y cyd mewn gofal cymdeithasol yn y dyfodol.
- 7.10. Dangosir rôl y cyngor fel 'rhiant corfforaethol' ar gyfer plant a phobl ifanc drwy'r Fforwm Rhianta Corfforaethol, lle mae uwch-reolwyr ac aelodau etholedig yn archwilio canlyniadau ar gyfer pobl ifanc ac yn herio perfformiad. Mae hyn yn cael ei wella o sefydlu dull cryfach o drefniadau sicrhau ansawdd, gan ymgysylltu â'r bobl ifanc ac ennyn eu barn. Yn

ystod ein cyfarfodydd rheolaidd gyda'r cyngor, rydym wedi edrych ar berfformiad mewn perthynas â chyflawni ymweliadau statudol i blant sy'n derbyn gofal o fewn graddfeydd amser, a oedd yn 88.3% yn 2014-2015 o'i gymharu â 89%. Clywsom fod y rhan fwyaf o bobl ifanc wedi cael ymweliadau nad oedd, ar achlysuron, yn bodloni'r meini prawf i'w cofnodi fel ymweliad statudol. Mae adroddiad y cyfarwyddwr yn cydnabod yr angen i wella'r broses ar gyfer bodloni terfynau amser ymweliadau statudol, a bydd hyn yn flaenoriaeth i'r cyngor yn 2015-2016.

Meysydd lle mae cynnydd

- Newidiadau strwythurol mawr i reoli gofal cymdeithasol i oedolion ac yn cynllunio ar gyfer trawsffurfio rheolaeth gwasanaethau plant

Meysydd i'w gwella

- Eglurder yn null strategol y cyngor o gomisiynu cefnogaeth i blant, oedolion, a grwpiau cymunedol